# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 22 Tachwedd 2011** |
| Amser: | **08:30 – 09:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Jocelyn Davies**<br>**William Graham**<br>**Jane Hutt** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Aled Elwyn Jones, Clerc Eweithdrefnau**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion fel rhai a oedd yn barod i'w cyhoeddi.

## 3. Trefn Busnes

### 3(i) Busnes yr wythnos hon

Hysbysodd Arweinydd y Tŷ y Pwyllgor fod trefn newydd ar gyfer y datganiadau llafar a'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Menter Gymdeithasol a Gwerth Cymdeithasol) yng Nghyfarfod Llawn dydd Mawrth.

Nododd y Pwyllgor y byddai Dirprwy Lywydd dros dro'n cael ei ethol ar ddechrau cyfarfod dydd Mercher, yn absenoldeb y Dirprwy Lywydd.

Ar ddydd Mawrth, bydd y Cyfnod Pleidleisio'n cael ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Ar ddydd Mercher, cytunodd y Pwyllgor Busnes y bydd y Cyfnod Pleidleisio'n cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

### 3(ii) **Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf fel yr hyn a nodwyd o dan eitem 3 (iv).

### 3(iii) **Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Cadarnhaodd y Pwyllgor drefn Busnes y Cynulliad fel yr hwnnw a geir o dan eitem 3 (iv).

### 3(iv) **Gweithredu diwydiannol: Trefn Busnes**

Rhoddodd y Pwyllgor Busnes ragor o ystyriaeth i'r cynllun wrth gefn a roddir ar waith os bydd gweithredu diwydiannol ar 30 Tachwedd. Cytunodd y Rheolwyr Busnes:

- na fydd cyfarfod ar ddydd Mercher 30 Tachwedd;
- y byddai'r Cyfarfod Llawn yn dechrau am 13.00 ar 6 Rhagfyr ac am 12.30 ar 7 Rhagfyr;
- ar y trefniadau newydd ar gyfer busnes y Llywodraeth ar gyfer 29 Tachwedd, a 6 a 7 Rhagfyr; ac i
- ail-drefnu'r eitemau o fusnes y Cynulliad a drefnwyd ar gyfer 30 Tachwedd ar gyfer dydd Mawrth 6 Rhagfyr a dydd Mercher 7 Rhagfyr.

Nododd Arweinydd y Tŷ y byddai'r cwestiwn llafar a amserlenwyd ar gyfer 30 Tachwedd yn cael ei ofyn ddydd Mawrth 29 Tachwedd:

- Cwestiynau i'r Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (45 munud)

### 3(v) **Dadleuon Aelodau Unigol: Dewis Cynnig i'w Drafod**

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion heb ddyddiad trafod gan Aelodau unigol a detholwyd y cynnig a gyflwynwyd yn enw Mick Antoniw (Pontypridd), Nick Ramsay (Mynwy), Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru), Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru), Byron Davies (Gorllewin De Cymru), Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth), Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd), Keith Davies (Llanelli), Christine Chapman (Cwm Cynon), Lynne Neagle (Tor-faen), Eluned Parrott (Canol De Cymru) i'w drafod ddydd Mercher 7 Rhagfyr (NNDM4862).

## 4. Deddfwriaeth

## 4(i) **Bil Llywodraeth Leol (Is-ddeddfau) (Cymru)**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Bil Llywodraeth Leol (Is-ddeddfau) (Cymru) at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i'w ystyried. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'n rhaid cyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil erbyn 30 Mawrth 2012 fan bellaf. Os cytunir ar y Bil yng Nghyfnod 1, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid dwyn trafodion Cyfnod 2 y Pwyllgor i ben erbyn 1 Mehefin 2012.

## 4(ii) **Y Bil Lleoliaeth - Llythyr gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau - Papur i'w nodi**

Nododd y Pwyllgor Busnes lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ynghylch ei ddatganiad ysgrifenedig ar y Bil Lleoliaeth.